Swydd-ddisgrifiad

Teitl y swydd:	Rheolwr Cymwysterau
Cyflogwr:	Cymwysterau Cymru
Lleoliad:	Q2, Imperial Park, Casnewydd, NP10 8AR
Contract:	Ar hyn o bryd, mae dau gyfle tymor penodol am Reolwr Cymwysterau ar gael. Mae hon yn rôl lawn amser (37 awr yr wythnos), ond gellir trafod ceisiadau am batrymau gwaith eraill, gan gynnwys gwaith rhan amser a rhannu swydd, yn y cyfweliad. Bydd y rôl dymor penodol yn rhedeg tan 31 Awst 2024 er mwyn cyflenwi gwaith ychwanegol sy'n gyfyngedig o ran amser a fydd yn ymwneud â diwygio cymwysterau. Mae'n bosibl y gwneir y swyddi hyn yn barhaol. Nodwch a ydych yn gwneud cais i gael eich ystyried ar gyfer y penodiad ar sail secondiad. Ar hyn o bryd rydym yn rhagweld y bydd y rolau hyn yn gweithio ar gymwysterau newydd i gefnogi meysydd cwricwlwm Gwyddoniaeth a Thechnoleg ac Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Felly gall y rôl hon apelio yn arbennig at ymgeiswyr sydd â diddordeb yn y meysydd hyn. Fodd bynnag, nid yw arbenigedd yn y meysydd hyn yn rhagofyniad, ac rydym yn annog unrhyw ymgeisydd sydd â'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i wneud cais. Efallai y bydd angen i ymgeiswyr llwyddiannus weithio ar gymwysterau ar draws meysydd cwricwlwm eraill yn ystod oes y prosiect. **Ein nod yw penodi un siaradwr Cymraeg rhugl o'r ymarfer recriwtio hwn.**
Cyflog a Buddiannau:	Band 4 - Ystod cyflog £39,310 - £47,000 y flwyddyn

	Yn ogystal â chyflog, rydym yn cynnig 30 diwrnod o wyliau blynyddol (yn ogystal â gwyliau cyhoeddus a chau'r swyddfa am hyd at dri diwrnod dros y Nadolig), trefniadau gweithio hyblyg ac aelodaeth o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.
Oriau gwaith:	37
Cyfarwyddiaeth	Polisi a Diwygio Cymwysterau Mae gan y tîm hwn ddiddordeb penodol mewn ehangu ei sail gwybodaeth o ran cymwysterau galwedigaethol gan y bydd rhai o'r ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu penodi i'r gwaith hwn i ddechrau.
Yn atebol i:	Uwch Reolwr Cymwysterau

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:	**27 Medi 2021 – Hanner dydd**
Cyfweliadau:	**Cynhelir y rhain ar-lein yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 11 Hydref 2021**
Cyswllt:	**recriwtio@cymwysteraucymru.org**

Cefndir

Sefydlwyd Cymwysterau Cymru yn 2015 fel rheoleiddiwr annibynnol cymwysterau nad ydynt yn raddau a'r system gymwysterau yng Nghymru. Rydym yn gyfrifol am sicrhau bod cymwysterau a'r system cymwysterau yn effeithiol o ran diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru, ac ennyn hyder y cyhoedd yn y rhain. Rydym yn gorff cyhoeddus a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac rydym yn atebol am ein gwaith i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae ein strwythur sefydliadol yn seiliedig ar dair Cyfarwyddiaeth (Polisi a Diwygio Cymwysterau, Rheoleiddio ac Adnoddau Corfforaethol).

Diben y swydd

Cewch eich penodi i'r Gyfarwyddiaeth Polisi a Diwygio Cymwysterau i ddechrau a bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn arwain ar ddatblygu cynigion ar gyfer cymwysterau newydd i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru.

Ymhlith y prosiectau eraill y gweithir arnynt yn y gyfarwyddiaeth mae:

- Cymwysterau galwedigaethol a thechnegol
- Adolygiadau sector
- Y Dystysgrif Her Dgiliau (o fewn Bagloriaeth Cymru)
- Sgiliau Hanfodol Cymru

Mae'r gwaith hwn yn waith proffil uchel a dylanwadol. Bydd y Rheolwyr Cymwysterau o fewn y Gyfarwyddiaeth Polisi a Diwygio Cymwysterau yn chwarae rôl flaenllaw yn y gwaith o adolygu a diwygio cymwysterau. Bydd yn cynnwys lefel uchel o ymgysylltu â chyflogwyr, cyrff cyflogwyr, arbenigwyr pwnc ac arbenigwyr proffesiynol, darparwyr dysgu a chyrff dyfarnu.

Bydd deiliad/deiliaid y swydd yn ymgymryd â rôl flaenllaw o ran gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu a diffinio ein disgwyliadau a'n gofynion ar gyfer y cymwysterau newydd a sicrhau bod y cymwysterau, ar ôl iddynt gael eu datblygu, yn addas at y diben a bod y darparwyr dysgu yn barod i'w cynnig. Mae rhai Rheolwyr Cymwysterau yn ymwneud â chaffael a rheoli contractau ar gyfer datblygu'r cymwysterau hynny.

Er mwyn sicrhau bod ein gweithlu yn ymatebol ac yn addasadwy, mae gennym ddull gweithredu hyblyg o ran dosbarthu staff y mae eu gwaith yn ymwneud â

chymwysterau a chyrff dyfarnu. O dan ein Huwch Grŵp Arwain mae gennym dair rheng o rolau cyffredinol: Rheolwyr Cymwysterau, Swyddogion Cymwysterau a Chynorthwywyr Cymwysterau. Gall cyflogeion yn y rolau hyn gael eu dosbarthu i dimau gwahanol a chânt gyfle, dros amser, i ddatblygu amrywiaeth eang o sgiliau. Mae hefyd gyfle i arbenigo.

Gall Rheolwyr Cymwysterau gael eu dosbarthu i weithio mewn un o dri thîm (gan gynnwys Polisi a Diwygio Cymwysterau). Ar hyn o bryd, mae'r timau eraill sydd â rolau Rheolwyr Cymwysterau yn bodoli o fewn y Gyfarwyddiaeth Reoleiddio ac yn cynnwys y canlynol:

- **Monitro a Chydymffurfio**
  Mae'r tîm hwn yn adolygu gwaith y cyrff dyfarnu a'r cymwysterau y maent yn eu darparu, er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion rheoliadol – a chymryd camau lle nodir nad ydynt yn cydymffurfio.

- **Dynodi a Chymeradwyo**
  Mae'r tîm hwn, sy'n gweithio gydag arbenigwyr yn aml, yn adolygu ceisiadau gan y cyrff dyfarnu ar gyfer cymeradwyo a dynodi cymwysterau newydd ar ôl iddynt gael eu datblygu.

O bryd i'w gilydd, efallai y bydd gan y Rheolwr Cymwysterau gyfle i gymryd rhan mewn prosiectau trawsbynciol y tu allan i waith o ddydd i ddydd y tîm.
Ni waeth pa dîm bynnag y bydd y Rheolwr Cymwysterau yn gweithio ynddo, prif ddiben y rôl yw arwain y broses o sicrhau bod cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru yn effeithiol o ran diwallu anghenion dysgwyr - ac atgyfnerthu'r gwaith o ennyn hyder y cyhoedd yn y ddau faes hyn. Bydd cyfrifoldebau penodol y swydd yn amrywio rywfaint yn dibynnu ar ba dîm y lleolir deiliad y swydd ynddo, ond bydd bob amser yn gysylltiedig â'r canlynol:

- cynllunio a rheoli eich gwaith eich hun a gwaith eraill
- rheoli contractau a gwaith cynghorwyr ac ymgynghorwyr arbenigol
- ymgysylltu ar lefel uwch â rhanddeiliaid
- datblygu a chymhwyso meini prawf a roddir i sefyllfa benodol a llunio barn yn erbyn meini prawf o'r fath
- llunio dogfennau, yn aml ar faterion technegol
- datblygu opsiynau ar gyfer gweithredu ac asesu effaith y rhain ar randdeiliaid
- nodi a gwahaniaethu rhwng tystiolaeth berthnasol
- rhoi adborth clir yn ysgrifenedig ac ar lafar i gyrff darparu ac eraill
- rheoli tîm a/neu brosiect
- cadw cofnodion cywir.

Prif ddyletswyddau

- Datblygu amserlen ar gyfer gweithgareddau a'u rhoi ar waith fel y bo'n briodol. Cynllunio a rheoli gwaith yn effeithiol, gan ystyried amcanion corfforaethol ac amcanion y tîm.
- Rheoli prosiectau a/neu raglenni er mwyn cyflawni amcanion o fewn y gofynion o ran amser, cyllideb ac ansawdd.
- Penodi a rheoli contractau a/neu grantiau gydag arbenigwyr allanol a darparwyr perthnasol eraill, gan sicrhau bod perfformiad a chynnyrch yn cyrraedd safonau ansawdd a chydymffurfio priodol.
- Sefydlu a chynnal cydberthnasau effeithiol â rhanddeiliaid yn ystod prosiectau a/neu raglenni adolygu a diwygio.
- Llunio adroddiadau, cynigion a dogfennau clir a chryno ar gyfer cynulleidfaoedd mewnol ac allanol.
- Cydgysylltu â chyrff dyfarnu naill ai ar sail gytundebol neu reoleiddiol, olrhain camau gweithredu yn erbyn gofynion a rhoi cyfarwyddiadau clir bob amser wrth gynnal cydberthynas gadarnhaol sy'n eu galluogi cymaint â phosibl.
- Sicrhau bod rhaglenni adolygu, diwygio a monitro, yn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol ac unrhyw ofynion arfer da.
- Arwain a rheoli tîm bach o staff, gan gynnwys rheoli o ddydd i ddydd, amserlennu, goruchwylio a datrys problemau, gan osod y paramedrau er mwyn cyflawni gwasanaeth ardderchog.
- Adolygu a dadansoddi ystod o dystiolaeth gymhleth er mwyn gwneud dyfarniadau, argymhellion a/neu benderfyniadau perthnasol fel sy'n briodol. Cofnodi penderfyniadau a'r rhesymau dros eu gwneud a, lle y bo hynny'n briodol, manylu ar y camau gweithredu a argymhellir neu'r camau gweithredu sydd eu hangen.
- Meithrin dealltwriaeth o'r cyfrifoldebau statudol, polisïau, meini prawf, amodau a chanllawiau sy'n berthnasol mewn unrhyw sefyllfa, a'u cymhwyso wrth wneud penderfyniadau.
- Tynnu sylw'r uwch grŵp arwain neu dimau perthnasol eraill at unrhyw faterion sy'n peri pryder neu ddiffyg cydymffurfiaeth â'r gofynion.
- Cadw cofnodion priodol o'r holl weithgareddau.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n berthnasol i'r lleoliad penodol ac sy'n briodol o ran y radd.

Manyleb y person

	Hanfodol	Dymunol
Profiad	Profiad o weithio ar lefel reoli mewn cyd-destun rheoleiddiol, datblygu cymwysterau neu sicrhau ansawdd. Profiad sylweddol yn y sector cymwysterau, addysg neu hyfforddiant. Profiad o reoli neu arwain prosiectau neu raglenni gwaith mewn ffordd strwythuredig er mwyn cyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt. Profiad o ymgysylltu a thrafod ag ystod eang o randdeiliaid mewn cyd-destun ffurfiol a phroffesiynol.	Profiad o weithio'n agos â chymwysterau mewn rôl rheoli neu rôl broffesiynol. Profiad o gyd-destun cymwysterau galwedigaethol, addysg neu hyfforddiant.
Gwybodaeth a dealltwriaeth	Dealltwriaeth amlwg o ddulliau effeithiol o ddatblygu, adolygu, rheoleiddio neu sicrhau ansawdd cymwysterau **a/neu** raglenni addysg. Dealltwriaeth amlwg o'r dirwedd cymwysterau ledled y DU.	Dealltwriaeth o ddulliau effeithiol o ran dylunio a darparu asesiad. Gwybodaeth am y system addysg a chymwysterau ôl-16 yng Nghymru.
Sgiliau	Meddyliwr dadansoddol medrus gyda'r gallu i ddosbarthu a deall materion cymhleth, rheoli safbwyntiau croes a magu hyder. Y gallu i ddatblygu a chynnal cydberthnasau gwaith cadarnhaol â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys cyflogwyr. Y gallu i ysgrifennu adroddiadau clir, cryno, darbwyllol a chywir i gyfleu gwybodaeth gymhleth.	**Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg.**

	Y gallu i gyfleu gwybodaeth gymhleth yn glir ac yn gryno mewn trafodaethau. Y gallu i weithio'n annibynnol i gyflawni canlyniadau o ansawdd. Y gallu i arwain tîm yn effeithiol a pherfformio fel aelodau effeithiol o dîm.	